



**RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL  
CYNGOR BWRDEIS TREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

Bydd cyfarfod o'r **Bwrdd Rhianta Corfforaethol** yn cael ei gynnal yn: **Bloc F, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany CF40 2XX**  
ar

**Dydd Mercher, 8 Mai 2019 am 10.00 am**

**Swyddog cyswllt:** Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol (01443 424062)

**MATERION I'W TRAFOD**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar 20 Mawrth 2019 yn rhai cywir.

**(Tudalennau 5 - 16)**

**3. LLEISIAU O OFAL - FFORWM RHCT**

Derbyn cynrychiolwyr o 'Lleisiau o Ofal' i ystyried y cynnydd diweddar.

**(Tudalennau 17 - 26)**

**4. DARPARIAETH GOFAL PLANT GOFRESTREDIG - DIWEDDARIAD**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ynglŷn â lleoliadau gofal plant dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Llesiant a Chydnherthedd y Gymuned (CWRS) sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW).

**(Tudalennau 27 - 44)**

**5. GWASANAETH EIRIOLAETH IEUENCTID CENEDLAETHOL**

Trafod yr adroddiad gan y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol sy'n rhoi'r wybodaeth chwarterol ddiweddaraf i'r Aelodau am gwynion.

**(Tudalennau 45 - 54)**

**6. TRAFOD CADARNHAU'R PENDERFYNIAD ISOD:-**

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.”

**7. GWASANAETHAU CYMDEITHASOL – CWYNION A CHANMOLIAETHAU CHWARTEROL**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi crynodeb i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o'r trefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefn cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol.

**(Tudalennau 55 - 70)**

**8. ADRODDIADAU RHEOLIAD 73**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, sy'n rhoi diweddariad i Aelodau ynglŷn ag ymweliadau Rheoliad 73 a'r sefyllfa bresennol yng Nghartrefi Preswyl i Blant a'r Gwasanaeth Gofal Seibiant yn RhCT.

**(Tudalennau 71 - 96)**

**9. MATERION BRYD**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion bryd yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cylchrediad:**

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol:**

Y Cynghorydd C Leyshon (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd G Hopkins (Is-gadeirydd)  
Y Cynghorydd J James  
Y Cynghorydd S. Rees-Owen  
Y Cynghorydd J Rosser  
Y Cynghorydd R Yeo  
Y Cynghorydd L Jones

**Officers:**

Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant  
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidd a  
Chyfathrebu  
Paul Nicholls - Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol  
Ann-Marie Browning, Pennaeth y Gwasanaeth  
Ann Batley, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Blant  
Ceri Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant  
Cara Miles, Childcare Solicitor  
Jayne Thomas, Rheolwr Gwella'r Gwasanaeth, Ymgysylltu a Chwynion

Gwasanaeth Cenedlaethol Eiriolaeth Ieuenctid ('NYAS') – copi electronig